

## **Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu [Dirybudd]**

● **Grŵp Cambian: St Teilo  
House**

28 – 30 Ebrill 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	4
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth .....	6
4.	Crynodeb .....	7
5.	Canfyddiadau.....	9
	Safonau Craidd.....	9
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl .....	15
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl .....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Appendix A .....	20

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u penodi'n awdurdod cofrestru dros Gymru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial

- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

## 2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)<sup>1</sup>
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon ac atgyfeiriadau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

---

<sup>1</sup> Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

### 3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad iechyd meddwl ac anabledd dysgu dirybudd â St Teilo House, Rhymni, gyda'r nos ar 28 Ebrill 2015 a thrwy'r dydd ar 29 a 30 Ebrill 2015.

Cofrestrwyd Ysbyty Annibynnol St Teilo House ('St Teilo') gydag AGIC gyntaf ym mis Mawrth 2007, ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu gofal i 24 o gleifion benywaidd. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu triniaeth neu wasanaeth nyrso (neu'r ddau) ar gyfer unigolion sydd wedi cael prif ddiagnosis o salwch meddwl. Cambian Healthcare Cyf yw darparwr cofrestredig yr ysbyty.

Yn ystod yr arolygiad, a barodd dri diwrnod, gwnaethom adolygu'r ward a'r cofnodion claf, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys dau adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, ac un aelod o staff AGIC.



## 4. Crynodeb

Roedd ein hymweliad â St Teilo yn un cadarnhaol, lle y nodwyd gwelliannau ers ein hymweliad blaenorol ym mis Chwefror 2014. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r holl staff a'r cleifion a wnaeth ein helpu ni yn ystod yr arolygiad, ac yn gwerthfawrogi mor agored roedd pawb wrth roi cymorth i ni yn ystod yr arolygiad.

Roedd St Teilo yn darparu amgylchedd adsefydlu da i'r cleifion, a gwnaed ymdrechion sylweddol i wella pryd a gwedd yr ysbyty drwy raglen gynhwysfawr o waith cynnal a chadw. Roedd y gwelliannau'n cynnwys ailaddurno'r ysbyty trwyddo draw, creu mwy o fannau tawel i'r cleifion, a rhannu'r ystafell fawr lan llofft yn ddwy ystafell ar wahân at ddibenion y cleifion. Roedd y gwelliannau wedi gwella golwg a naws yr ysbyty yn sylweddol, ac roedd yn addas ar gyfer y grŵp o gleifion. Roeddem yn falch o weld safon glendid uchel iawn trwy gydol yr ysbyty. Roedd yr holl waith addurno a'r dodrefn yn yr ysbyty o safon dda, ac roedd y cyfleusterau a oedd at ddefnydd y cleifion yn dda iawn.

Gwelsom fod lefelau staffio yn yr ysbyty yn briodol i gyfateb â nifer y cleifion a oedd yn St Teilo yn ystod y dydd a'r nos. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion drwy'r amser yn ystod ein hymweliad.

Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty, roedd dau glaf yn ymddwyn yn heriol iawn. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo nad oedd y cleifion hyn, o bosibl, yn addas ar gyfer natur adferol yr ysbyty. Dywedodd y cleifion y gallai ymddygiad heriol y cleifion dan sylw wneud iddynt teimlo'n anniogel ar adegau.

Gwnaeth yr holl staff a chleifion y siaradom â nhw ddweud bod y bwyd yn rhagorol yn yr ysbyty. Roedd y staff a'r cleifion yn bwyta ynghyd yn yr ystafell fwyta, ac oddi ar yr un fwydlen. Roedd y rhyngweithio hwn rhwng y staff a'r cleifion yn arfer nodedig.

Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant staff a ffeiliau staff. Ymgwymerodd staff yn helaeth â hyfforddiant gorfodol, a chanmolodd staff yr hyfforddiant sydd ar gael. Fodd bynnag, nid oedd pob ffeil staff a welsom yn cynnwys arfarniad cyfredol. Roedd system arfarnu staff ar waith, ond mae angen ei gwella fel bod gan bob aelod o staff arfarniad cyfredol.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth yn St Teilo a nodi nifer o bryderon. Roedd dyddiadau llawer o'r cynlluniau gofal a thriniaeth wedi dod i ben, roeddent yn wasgarog, nid oedd y cyfan yn cynnwys llofnod gan staff a chleifion, nid oedd rhai o anghenion y cleifion wedi cael sylw yn eu

cynlluniau gofal, ac roedd angen iddynt ganolbwyntio'n fwy ar dargedau a chynnwys dyddiadau clir ar gyfer eu hadolygu.

Roedd gan y practis lawer o weithgareddau ystyrlon i gleifion ymgymryd â nhw, a nododd y staff a'r cleifion fod y rhain yn cael eu defnyddio gan gleifion yn rheolaidd. Roedd gan yr ysbyty ymagwedd gynhwysfawr tuag at adferiad y cleifion, ac roeddent yn cynnig llawer o gyfleodd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig.

## 5. Canfyddiadau

### *Safonau Craidd*

#### **Amgylchedd y Ward**

Mae St Teilo House ger pentre Rhymni. Mae'r adeilad ar ddwy lefel, a cheir mynediad i'r ysbyty trwy dderbynfa. Mae'r dderbynfa yn lle golau a chanddo ystafelloedd ar gyfer ymwelwyr/cyfarfodydd. Ceir mynediad i'r ward trwy ddrws clo.

Mae gan St Teilo un ward dros ddau lawr. I lawr llawr, mae lolfa, gorsaf nyrsio, ystafelloedd ymwelwyr/cyfarfodydd, pedair ystafell wely i gleifion, a mynediad i fan awyr agored. Lan llofft, mae 19 o ystafelloedd gwely i gleifion, salon harddwch, ac ardaloedd i gleifion. Roedd gan bob ystafell wely claf gyfleusterau en-suite. Gallai'r cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely, ac roedd ganddynt eu hallwedd eu hunain i'w hystafell.

Roedd gwaith addurno sylweddol, a ddechreuodd yn gynnar yn 2015, yn mynd rhagddo ar safle St Teilo. Roedd amgylchedd y ward yn olau a chartrefol, ac roedd golwg yr ysbyty wedi gwella'n sylweddol ers ein hymweliad diwethaf.

Yn sgil y gwaith adeiladu, datblygwyd mwy o leoedd tawel ar gyfer y cleifion, rhannwyd y lolfa i fyny'r grisiau yn ddwy ystafell ar wahân, a chafodd yr uned ei hailaddurno'n gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys gosod papur wal newydd, ail-baentio'r waliau a'r drysau, a gosod gwaith celf ar y waliau. Roedd y newidiadau i'r amgylchedd yn amlwg yn yr ysbyty ac wedi gwella golwg a naws yr ysbyty'n sylweddol. Dywedodd y cleifion a'r staff fod y gwelliannau hyn wedi gwella'r ysbyty.

Gwnaethom fwrw golwg ar ystafell wely nad oedd wedi ei meddiannu ar y pryd, a gwnaethom sylwi ar faint digonol yr ystafell a'i hystafell gawod en-suite gyda thoiled. Roedd pob ystafell wely claf ar ffurf yr un a welsom ac yn darparu lle storio cloadwy i gleifion gael cadw eiddo personol.

Roedd gan yr ysbyty lawer o le a chyfleusterau ardderchog at ddefnydd y cleifion, gan gynnwys campfa, ystafell therapi galwedigaethol, dwy lolfa, ystafell gyfrifiaduron, a salon gwallt a harddwch. Roedd hysbysfyrdau wedi'u gosod yn yr ysbyty a oedd yn cynnwys gwybodaeth megis mynediad at eiriolaeth ac amserlenni dyddiol.

Roedd yr amgylchedd yn lân iawn. Buom yn sgwrsio â'r staff tŷ, a oedd yn frwdfrydig iawn ac yn ymroddedig i'w swydd, ac roedd hyn yn amlwg o weld safon glendid uchel iawn yr ysbyty cyfan. Roedd safon y dodrefn a'r addurno'n dda ledled St Teilo.

## Diogelwch

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y lefelau staffio'n briodol yn ystod y dydd a'r nos ar gyfer nifer y cleifion sydd yn yr ysbyty. Mynegodd y cleifion eu bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r lefelau staffio presennol. Nodwyd bod yr holl staff wedi derbyn larwm diogelwch personol er mwyn seinio rhybudd i eraill petai argyfwng.

Roedd rhai cleifion o'r farn bod rhyw ddau glaf yn yr ysbyty nad oedd wedi cael eu lleoli yno'n addas o bosibl, yn sgil graddfa eu haciwtedd a'u hymddygiad heriol. Dywedodd y cleifion wrthym fod y cleifion hyn yn gallu amharu ar naws a chydbwysedd y ward, a dywedodd rhai cleifion fod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel ar brydiau. Gwnaethom drafod y mater â rheolwr yr ysbyty yn ystod ein hymweliad. Dywedwyd wrthym fod un claf wedi ei dderbyn yn ddiweddar a'i fod yn cael ei asesu a'i sefydlogi. Dywedwyd wrthym fod y sefyllfa hon i fod i gael ei hadolygu yn ystod yr wythnos yn dilyn ein hymweliad. Gofynnem am gael ein diweddarau ynghylch y claf hwn.

Roedd y gwaith o greu lolfâ newydd lan llofft wedi gwella diogelwch yng ngolwg y staff a chleifion.

Dywedwyd wrthym fod cael ond un lolfâ wedi arwain at densiynau ar adegau ond bod hyn wedi lleihau ers i lolfâ ychwanegol fod ar gael.

## **Gofynion**

***Mae'n ofynnol cael diweddariad ar y claf a drafodwyd yn ystod ein hymweliad i sicrhau bod y claf yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn cleifion ac yn cyd-fynd â'r amodau cofrestru.***

## Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth mwyafrif y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gwaith y tîm amlddisgyblaethol. Dywedodd y staff wrthym y ceisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan bob disgyblaeth yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, ac roedd y staff yn teimlo bod eu barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi gan y lleill.

Ar adeg ein hymweliad, roedd gan yr ysbyty ddau therapydd galwedigaethol llawn amser, dau therapydd galwedigaethol cynorthwyol, un seicolegydd, dau seiciatrydd ymgynghorol (y clinigydd cyfrifol oedd un ohonynt), pennaeth gofal, a rheolwr cofrestredig. Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff a chleifion bod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a bob amser wrth law. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw ganmol y clinigydd cyfrifol a dweud ei fod yn hawdd siarad ag ef, a'i fod yn ystyried ac yn gwerthfawrogi safbwyntiau aelodau staff o bob lefel. Roedd y clinigydd cyfrifol hefyd yn

cynnal cyfarfodydd grŵp cymorth bob yn ail wythnos gydag aelodau staff, a oedd yn rhoi cyfle i staff drafod eu dulliau gwaith ac unrhyw anawsterau.

Hefyd, cynhelir cyfarfodydd pontio yn yr ysbyty bob bore, lle y caiff nodiadau eu trosglwyddo o'r sifft flaenorol i'r sifft nesaf, a'u trafod. Roedd y cyfarfod pontio a welsom wedi'i strwythuro'n dda, ac roedd y wybodaeth a roddwyd yn berthnasol i'r grŵp cleifion ac o fudd i'r staff a oedd yn bresennol.

### **Preifatrwydd ac urddas**

Roedd adborth y cleifion ynghylch preifatrwydd ac urddas yn St Teilo yn gadarnhaol. Roedd y cleifion o'r farn bod staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas, er enghraifft drwy guro ar ddrws eu hystafell wely cyn mynd i mewn. Mynegodd y cleifion eu bod yn cael eu trin fel unigolion a bod eu rhyngweithiadau â'r staff yn dda.

Cadarnhaodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt nyrs benodedig a'u bod yn gallu siarad â honno'n breifat ynghylch unrhyw faterion a allai godi. Dywedodd cleifion wrthym fod ganddynt gyfleoedd da i fynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt a bod ganddynt lais yn yr ysbyty.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun gydag ystafell gawod a thoiled en-suite. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd gwely eu hunain, ond roedd allweddi'r staff yn gallu eu hagor pe bai rhaid. Roedd digon o le i'r cleifion storio'u heiddo personol.

Gallai cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat, naill ai drwy ddefnyddio'r ffôn talu neu roedd gan rai ohonynt eu ffonau symudol eu hunain. Roedd ystafell ymwelwyr hefyd ar gael yn y dderbynfa i gleifion gyfarfod â theulu a ffrindiau.

Defnyddiai St Teilo flwch cynigion, a thrafodwyd unrhyw gynigion yng nghyfarfodydd wythnosol yr ysbyty ac mewn cyfarfodydd cymunedol.

### **Therapiau a gweithgareddau i gleifion**

Roedd cyfleusterau ardderchog yn St Teilo ar gyfer gweithgareddau a therapiau cleifion, gan gynnwys ystafell gelf a oedd wedi'i chyflenwi'n dda, campfa, salon gwallt a harddwch, a rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ar gyfer y cleifion.

Roedd gan yr ysbyty amryw o weithgareddau ystyrllon ar gyfer y cleifion, a dywedodd staff a chleifion bod y rhain yn cael eu defnyddio gan gleifion yn rheolaidd. Roedd gan St Teilo raglen enillion therapiwtig lle y gallai cleifion ymgeisio am swyddi o fewn yr ysbyty. Fel rhan o'r rhaglen, byddai cleifion yn llenwi ffurflen gais, yn cael eu cyfweld am y swydd yr ymgeisiwyd amdani, ac yn cael eu talu'n ariannol am y dyletswyddau yr ymgwymerant â nhw. Dylid

canmol y rhaglen hon am ei bod yn cynnig profiad i gleifion o ymgeisio am swydd, ac am fod ganddi bwyslais adferol.

Cynigiai'r tîm therapi galwedigaethol hefyd amryw o weithgareddau rheolaidd i gleifion. Yn eu plith roedd clinig 'menyw iach' (mewn cydweithrediad â nyrs iechyd meddwl, sy'n gallu bwydo i mewn i atgyfeiriadau'r meddyg teulu a monitro arsylwadau corfforol), sesiynau rheoli pwysau, dosbarthiadau 'ffugio i ffwrdd' (lle gall cleifion ddysgu am fwydydd amgen, iach), grwpiau cerdded a seiclo, a rhaglenni ymarfer corff a champfa.

Roedd y staff yn cynnal arsylwadau corfforol ar gleifion bob wythnos, ac roedd gan gleifion fynediad at feddyg teulu a gwasanaethau gofal iechyd eraill yn ôl yr angen. Ar adeg ein hymweliad, roedd iechyd yn cael ei hyrwyddo ledled yr ysbyty.

Estynnai rhaglen weithgareddau'r ysbyty dros y penwythnos, ac mae therapyddion galwedigaethol cynorthwyol yn gweithio ar ddydd Sadwrn i gynorthwyo gyda gweithgareddau'r cleifion.

Roedd y tîm seicoleg a'r nyrs benodedig wedi cynnig rhaglen cam-drin sylweddau i glaf a oedd angen yr ymyriad hwn.

Roedd cynlluniau da ar waith yn St Teilo gogyfer â pharatoi cleifion i gael eu rhyddhau i leoliadau eraill, neu yn ôl i'w llety eu hunain. Roeddent yn cynnwys pecynnau gwybodaeth am sgiliau bywyd, er enghraifft, cynnal a chadw cyffredinol a newid bylbiau golau.

Gwnaethom siarad â chlaf a oedd yn mynychu dosbarthiadau Saesneg a mathemateg yn y gymuned leol. Cynigiwyd y trefniant hwn i bob claf a oedd eisiau cael fynediad i addysg. Cynigiwyd y rhaglenni addysgol yn y gymuned leol, a allai fod yn rhwystr i gleifion nad oedd â'r hawl i gael absenoldeb yn y gymuned ac felly na fyddai'n gallu gadael yr ysbyty i'w mynychu. Dylai'r ysbyty edrych eto ar ddarparu rhaglenni addysgol yn fewnol.

### **Bwyd a maeth**

Wrth drafod â chleifion a staff, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r bwyd a oedd yn cael ei weini yn St Teilo. Roedd dognau'n ddigonol, a gwelsom hyn yn ystod amser bwyd. Arddangoswyd bwydlenni'n amlwg ar gyfer cleifion, a chinigiwyd amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer pob pryd. Mynegodd y cleifion fod te a choffi ar gael iddynt drwy'r dydd. Nid oedd yr un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi cael anhawster cael bwyd ar gyfer alergeddau, problemau diet, neu ar gyfer credoau crefyddol neu ddiwylliannol. Dywedodd y cleifion fod yr ysbyty'n barod i fodloni unrhyw anghenion dietegol a fyddai ganddynt.

Gwnaethom siarad â chogydd yr ysbyty, a ddywedodd ei fod yn cyfarfod â'r holl gleifion newydd wrth iddynt gael eu derbyn i drafod eu hoffterau a'u cas bethau o ran bwydydd, ac unrhyw ofynion dietegol, er mwyn rhoi ystyriaeth iddynt.

Gwnaethom siarad ag aelodau staff sydd hefyd yn bwyta'r bwyd a baratoir yn yr ysbyty, ac roeddent yn ganmoliaethus ohono. Bwytai'r rhan fwyaf o aelodau staff gyda'r cleifion yn ystod amserau bwyd. Canmolodd y cleifion yr arfer hwn, a chroesawant y cyfle i fwyta gydag aelodau staff.

Fe'n hysbyswyd y gall y dewis o fwyd fod yn drwm ar garbohydradau, a dylid rhoi ystyriaeth i gynnig opsiynau eraill.

### ***Cam gofynnol***

#### ***Rhaid cynnig dewisiadau eraill yn hytrach nag ond bwydydd sy'n drwm ar garbohydradau.***

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu pum ffeil staff a nodi eu bod mewn trefn daclus. Roedd yr holl ffeiliau a adolygwyd gennym yn cynnwys tystiolaeth eang o wybodaeth am gyflogaeth i gadarnhau bod penodiadau wedi eu gwneud trwy broses agored, gan gynnwys ffurflenni cais, nodiadau cyfweliad, disgrifiad swydd, llythyr cynnig, contract, a geirdaon. Roedd tystiolaeth yn yr holl ffeiliau bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gynnal.

Nid oedd pob ffeil a adolygwyd gennym yn cynnwys arfarniadau cyfredol. Gwnaethom adolygu cofnodion arfarnu staff yr ysbyty ymhellach a nodi bod gan 19 o staff ddyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer eu harfarniad, nad oedd gan 18 o staff ddyddiad a drefnwyd, a bod yr 16 sy'n weddill wedi cwblhau arfarniad yn 2015. Mae angen i staff sydd heb arfarniad neu ddyddiad arfarnu gael un.

Roedd tystiolaeth dda bod staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd. Cadarnhawyd hyn drwy siarad ag aelodau staff a gwirio cofnodion goruchwyliaeth.

Dywedodd y staff wrthym fod y darparwr cofrestredig yn gefnogol o hyfforddiant a datblygiad staff, gan gynnwys cyfleoedd i fynychu hyfforddiant allanol a allai gynnwys cymhwyster proffesiynol. Roedd yr ysbyty wedi archebu hyfforddiant yn ddiweddar gan therapydd galwedigaethol sy'n adnabyddus yn y maes, a chafodd y staff fudd ohono. Roedd diwrnodau hyfforddiant yn digwydd oddi ar y safle erbyn hyn, gan mwyaf, fel y gellid cynnal hyfforddiant heb ormod o darfu.

Roedd yr ystadegau a ddarparwyd inni ynghylch hyfforddiant gorfodol yn dynodi bod graddfa uchel o gydymffurfiaeth ym mhob maes. Cadarnhaodd y staff fod y sefydliad yn hyfforddi drwy ddefnyddio cymysgedd o becynnau e-ddysgu ac addysgu wyneb yn wyneb yn null ystafell ddosbarth. Dywedodd y staff y gwnaethom sgwrsio â nhw fod yn well ganddynt hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y cyfan.

Gwnaeth adolygiad o'r cwynion amlygu bod y system sydd ar waith yn un gynhwysfawr. Roedd y llyfr cofnodi cwynion yn rhoi trosolwg o'r holl gwynion a dderbyniwyd, tra bod yr holl ffurflenni cwynion a adolygwyd yn dangos eu bod nhw wedi cael eu cwblhau'n llawn a'u llofnodi.

Gwnaed adolygiad o gofnodion digwyddiadau, a nodwyd bod y system sydd ar waith yn drylwyr a bod archwiliadau priodol yn cael eu cynnal. Gwnaethom groesgyfeirio digwyddiadau a hysbyswyd wrth AGIC drwy gyfrwng rheoliadau 30 a 31, ac roeddent yn cyfateb. Roeddem hefyd yn gallu dilyn trywydd hysbysiad a dderbyniwyd gennym ynghylch claf a oedd yn absennol heb ganiatâd. Roedd yr ysbyty wedi dilyn y weithdrefn yn gywir, wedi hysbysu'r asiantaethau perthnasol, ac wedi ymddwyn yn gymwys mewn perthynas â'r mater hwn.

### ***Cam gofynnol***

***Mae angen arfarniad cyfredol ar bob aelod o staff.***



## *Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl*

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol chwech o'r cleifion dan gadwad a oedd yn derbyn gofal yn St Teilo ar adeg ein hymweliad. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Mae'r dogfennau statudol a adolygwyd gennym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983.
- Roedd ffeiliau'r dogfennau statudol yn St Teilo yn cael eu cadw mewn trefn ragorol fel y gellid mynd atynt a'u hadolygu'n rhwydd. Roedd rhestr wirio dogfennau statudol ym mhob ffeil, a oedd yn sbardun i'r gweinyddydd iechyd meddwl gynnal archwiliadau yn unol â'r amserlenni statudol (e.e. cydsyniad â dyddiadau triniaeth a thriwbinlysoedd).

Roedd pedair o'r ffeiliau'n ymwneud â chleifion a oedd yn cael eu cadw dan Adran 3 y Ddeddf. Roedd yr holl ddogfennau statudol a oedd yn ymwneud â chadw pob claf unigol, ers iddynt gael eu derbyn ac yn barhaus, wedi cael eu cwblhau a'u cadw'n gywir yn y ffeil. Roedd adroddiadau'r Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) ar gael yn nodiadau cadw'r cleifion ac yn nodi perthynas agosaf y claf ym mhob achos.

Cedwid rhai cleifion dan Ran 3 y Ddeddf, Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddedfryd. Roedd dogfennau statudol sy'n ymwneud â'u cadw ar gael yn eu ffeiliau, gan gynnwys dogfennaeth gorchymyn ysbyty gan y llysoedd.

Roedd pob meddyginiaeth dan Adran 58 wedi'i hawdurdodi'n gywir. Roedd copïau o Dystysgrifau Cydsynio i Driniaeth wedi'u cadw gyda Siart Cofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf.

Pan oedd cleifion wedi cael caniatâd i fod yn absennol dan Adran 17, roedd yr amodau wedi'u nodi'n glir ar y ffurflen ganiatâd ac wedi'u llofnodi gan glinigydd cyfrifol y claf. Roedd y cleifion yn derbyn copïau o'r ffurflenni oedd yn rhoi caniatâd iddynt fod yn absennol o dan Adran 17. Mewn un achos, roedd claf wedi gwrthod llofnodi ei ffurflen caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17, ond cafodd hyn ei nodi'n glir ar y ffurflen. Roedd cleifion a oedd yn destun achos troseddol, neu a oedd dan ddedfryd dan Ran 3 y Ddeddf, wedi cael caniatâd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i fod yn absennol.

Gwelsom dystiolaeth ym mhob ffeil claf eu bod wedi'u hysbysu o'u hawliau dan Adran 132 y Ddeddf. Lle roedd yn berthnasol, roedd hi'n amlwg bod cleifion wedi apelio yn erbyn cael eu cadw, naill ai i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (Adran 65) neu i Wrandawriad Rheolwyr Ysbyty. Pan ddigwyddai hyn, roedd hi'n amlwg bod y penderfyniad wedi'i gyfleu i'r claf.

## *Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl*

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth yn St Teilo a gwneud yr arsylwadau canlynol:

- Nid oedd yr adolygiadau o gynlluniau gofal a thriniaeth yn gyfredol erbyn hyn – cafodd un ei adolygu ddiwethaf yn 2012.
- Nid oedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn ymddangos yn ddogfennau gweithio yn yr ysbyty, ac nid oedd y wybodaeth ynddynt yn gydgysylltiedig. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn ymddangos yn wasgarog iawn ac nid oeddent yn hawdd i'w deall.
- Roedd llofnodion wedi'u hepgor, gan mwyaf, o'r adolygiadau cynllunio gofal a thriniaeth. Roedd rhai ohonynt yn anodd eu darllen, heb ddyndodi teitl yr aelod o staff, a heb eu dyddio.
- Roedd gan rai cleifion anawsterau ac anghenion na fodlonwyd, ac ni roddwyd sylw penodol i'r rhain yn y cynllun gofal a thriniaeth. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn cynnwys datganiadau megis 'unrhyw beth na chafodd ei gynnwys yn y cynlluniau gofal'. Mae angen iddynt fod yn fwy penodol i'r person, heb ddatganiadau gor-gyffredinol, i sicrhau bod digon o ddyfnder a manylion ynddynt a bod y gofal a ragnodwyd yn cael ei roi.
- Mae angen i gynlluniau gofal a thriniaeth roi mwy o bwyslais ar dargedau, fod yn seiliedig ar CAMPUS, yn ddyddiedig, ac osgoi termau megis 'yn mynd rhagddo'.
- • Nid oedd tri o'r cynlluniau gofal a thriniaeth yn cynnwys tystiolaeth bod gan gleifion y galluedd i gydsynio â'r cynllun.

Mynegwyd y materion hyn i reolwr yr ysbyty, a ddywedodd wrthym fod strwythur cynllun gofal a thriniaeth newydd wedi cael ei ddrafftio ac yn disgwyl

sêl bendith y cwmni cyn ei fod yn cael ei weithredu yn yr ysbyty. Dangoswyd y cynlluniau gofal a thriniaeth newydd inni gan reolwr yr ysbyty, ac roeddent yn well o lawer na'r rhai a ddefnyddiwyd ar adeg ein hymweliad.

### ***Cam gofynnol***

***Mae angen mynd i'r afael â'r holl faterion ynghylch cynlluniau gofal a thriniaeth, yn benodol i sicrhau bod dyddiad arnynt, eu bod ar waith i bob claf, ac yn darparu digon o wybodaeth sy'n rhoi sylw i holl anghenion y claf.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol ar St Teilo House i gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn St Teilo House yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu:

Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd:

Bwrdd Iechyd Cwm Taf

Practis:

St Teilo House

Dyddiad yr arolygiad:

28 – 30 Ebrill 2015

Gofyniad / Argymheliad	Rheoliad	Cam gweithredu St Teilo	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid cynnig dewisiadau eraill yn hytrach nag ond bwydydd sy'n drwm ar garbohydradau.	15 (9) (b)	Dyfeisiwyd bwydlenni newydd.	Prif gogydd/Rheolwr yr ysbyty	Cwblhawyd
Mae ofynnol cael diweddariad ar y claf a drafodwyd yn ystod ein hymweliad i sicrhau bod y claf yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn cleifion ac yn cyd-fynd â'r amodau cofrestru.	15(1) (a) (b) a (c)	Cynhaliwyd dau gyfarfod i swyddogion proffesiynol. Ar 15 Gorffennaf 2015, trosglwyddwyd y claf i uned ddiogel is.	Rheolwr yr ysbyty	Cwblhawyd
<p>Mae angen mynd i'r afael â'r holl faterion ynghylch cynlluniau gofal a thriniaeth, yn benodol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Nid oedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn ymddangos yn ddogfennau gweithio yn yr ysbyty, ac nid oedd y wybodaeth ynddynt yn gydgyssylltiedig. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn ymddangos yn wasgarog iawn ac nid oeddent yn hawdd i'w deall.</li> <li>Roedd llofnodion wedi'u hepgor, gan mwyaf, o'r adolygiadau cynllunio gofal a thriniaeth. Roedd rhai ohonynt yn anodd i'w darllen, heb ddyddiadau teitl yr aelod o staff, a heb eu dyddio.</li> <li>Roedd gan rai cleifion anawsterau ac anghenion na foddolwyd, ac ni roddwyd sylw penodol i'r rhain yn y cynllun gofal a thriniaeth. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn cynnwys datganiadau megis 'unrhyw beth na chafodd ei gynnwys yn y cynlluniau gofal'. Mae angen iddynt fod yn fwy penodol i'r person, heb ddatganiadau gor-gyffredinol, i sicrhau bod digon o ddyfnder a manylion ynddynt a bod y gofal a ragnodwyd yn cael ei roi.</li> <li>Mae angen i gynlluniau gofal a thriniaeth roi mwy o bwyslais ar dargedau, fod yn seiliedig ar CAMPUS, yn ddyddiedig, ac osgoi termau megis 'yn mynd rhagddo'.</li> <li>Nid oedd tri o'r cynlluniau gofal a thriniaeth yn cynnwys tystiolaeth bod gan gleifion y galluedd i gydsynio â'r cynllun.</li> </ol>	15 (1) (a) (b) (c) & 19 (1) (a) (b)	Dyfeisiwyd cynllun gofal newydd a archwiliwyd yn ystod ymweliad AGIC. Bydd hwn yn ymdrin â'r pwytiau a fynegwyd. Mae hwn gyda'r tîm ansawdd ar hyn o bryd.	Rheolwr yr ysbyty/Unigolyn Cyfrifol	30/08/15
Mae angen arfarniad cyfredol ar bob aelod o staff.	20 (2) (a)	51 allan o 53 wedi eu cwblhau hyd yma	Rheolwr yr ysbyty	31/7/15